Monday 21st September 2020

**Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru**

**Yn bresennol:**

Cynghorydd Rosemarie Harris – Arweinydd:  Cyngor Sir Powys – Cadeirydd
Cynghorydd Ellen Ap Gwynn – Arweinydd:  Cyngor Sir Ceredigion – Is-Gadeirydd
Ann Elias – Cyngor Sir Ceredigion **(AE)**
Ann Watkin – Llywodraeth Cymru **(AW)**
Arwyn Davies – Cyngor Sir Ceredigion **(AD)**
Arwyn Watkins OBE – Hyfforddiant Cambrian **(ArwynW)**
Carole Weller – Llywodraeth Cymru **(CW)**
Carwyn Jones-Evans – Cyngor Sir Ceredigion **(CJ-E)**
Claire Miles – RET Canolbarth Cymru **(CM)**
Cynghorydd Gareth Thomas, Cyngor Gwynedd **(GT)**
Cynghorydd James Evans – Deiliad Portffolio Cabinet:  Datblygu Economaidd, Tai a Gwasanaethau Rheoliadol (Cyngor Sir Powys) **(Cyng.JE)**
Cynghorydd Myfanwy Alexander – Deiliad Portffolio Cabinet:  Gofal Cymdeithasol i Oedolion a’r Iaith Gymraeg (Cyngor Sir Powys) **(Cyng. MA)**
Cynghorydd Rhodri Evans – Aelod Cabinet:  Datblygu Economaidd (Ceredigion) **(Cyng. RE)**
Dr. Caroline Turner – Prif Weithredwr:  Cyngor Sir Powys **(CT)**
Emma Wilde – Siambr Fasnach Canolbarth Cymru **(EW)**
Gareth Jones – Cyngor Sir Powys **(GJ)**
Helen Jones – Croeso Cymru **(HJ)**
Hywel Davies – Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant **(HD)**
Marie Evans – RET Canolbarth Cymru **(ME)**
Mark Dacey – Grŵp Colegau NPTC **(MD)**
Nia Williams – Cyd-bwyllgor Canolbarth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal **(NW)**
Nigel Brinn – Cyngor Sir Powys **(NB) (rhan)**
Peter Davies MBE – Undeb Amaethwyr Cymru **(PD)**
Peter James – Llywodraeth Cymru **(PJ)**
Rachel Garside-Jones, Dirprwy Gyfarwyddwr Buddsoddi Rhanbarthol – Llywodraeth Cymru **(RG-J)**
Rhian Hayward – Prifysgol Aberystwyth **(RH)**
Rhodri Llwyd Morgan – Prifysgol Aberystwyth **(RLlM)**
Russell Hughes-Pickering – Cyngor Sir Ceredigion **(RHP)**
Siwan Richards – Cyngor Sir Ceredigion **(SR)**
Steve Hughson – Prif Weithredwr:  Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru **(SH)**

**Yn bresennol hefyd:**

Arthur Emyr – Llywodraeth Cymru **(ArthurE)**
David Owen – Swyddog Datblygu Digidol – Cyngor Sir Ceredigion **(DO)**
Diane Reynolds – Cyngor Sir Powys **(DR)**

Cofnodion cyfarfod Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a gynhaliwyd ar ddydd Llun, 21 Medi 2020 trwy Zoom.

| | | Gweithredu |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan:-<br>• Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru<br>• Cynghorydd Dafydd Edwards, Cyngor Sir Ceredigion<br>• Cynghorydd Dyfrig Siencyn, Gwynedd<br>• Cynghorydd Phyl Davies, Cyngor Sir Powys<br>• Cynghorydd Rowland Rees-Evans, Twristiaeth Canolbarth Cymru<br>• Doug Hughes, Penseiri Hughes<br>• Eifion Evans, Cyngor Sir Ceredigion<br>• Emyr Williams, Parc Cenedlaethol Eryri<br>• Gerwyn Evans, Llywodraeth Cymru<br>• Gillian Wells, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Jane Davidson, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant<br>• Jayne Jones, Grŵp Colegau NPTC<br>• Lowri Gwilym, CLILC<br>• Martin Cox, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Nina Davies, Cyngor Sir Powys<br>• Peter Howells, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr<br>• Peter James Llywodraeth Cymru<br>• Peter Skitt, Bwrdd Iechyd Hywel Dda<br>• Rhodri Griffiths, Llywodraeth Cymru<br>• Rob Holt, Llywodraeth Cymru<br>• Vivienne Lewis, Llywodraeth Cymru | |
| 2. | **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL – 1 Mehefin 2020**<br>Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 1 Mehefin 2020 yn gofnod cywir, ar yr amod y gwneir y diwygiad canlynol:-<br><br>Newid 'Grŵp NPTC' i 'Grŵp Colegau NPTC'. | |
| 3. | **Diweddariad am y Fargen Twf a'r Camau Nesaf**<br>• **Bargen Twf**<br><br>Nododd CJE bod dogfen y cynnig ar gyfer TCC wedi cael ei chyflwyno i'r ddwy Lywodraeth a bod swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r ddwy Lywodraeth ar y manylion. Esboniodd CJE bod swyddogion wedi bod yn gweithio ar Adolygiadau Dilysu Prosiect gyda'r ddwy Lywodraeth a bod Adroddiad yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd. Trefnwyd Gweithdai Portffolio gyda'r ddwy Lywodraeth yr wythnos hon ac ymhen pythefnos. Nododd CJE mai'r gobaith yw y cytunir ar Benawdau'r Telerau dros yr wythnosau nesaf, gan gytuno ar y Fargen lawn ym mis Mawrth 2021.<br><br>Diolchodd EAG i swyddogion am y gwaith a wnaethpwyd i baratoi ar gyfer yr Adolygiadau Dilysu Prosiect ac mae'n edrych ymlaen i gael y canlyniad.<br><br>• **RLSP Canolbarth Cymru**<br><br>Nododd CJE bod LIC wedi cynnig cyllid er mwyn sefydlu'r RLSP ar gyfer Canolbarth Cymru a bod swyddogion wedi bod yn gweithio ar gynigion a gyflwynir erbyn diwedd y mis hwn, ac fe'u trafodir yn fanylach yn ystod cyfarfod nesaf Bwrdd TCC (Cyd-bwyllgor).<br><br>Nododd EAG ei bod hi'n falch o glywed am gynnydd yr RLSP ar gyfer Canolbarth Cymru. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd PD a fu adolygiad o Gynllun Busnes y Fargen Twf yng ngoleuni'r pandemig? Esboniodd CJE bod y pandemig wedi bod yn rhywbeth amlwg iawn ym meddyliau pawb a bod siâp yr economi wedi newid ers y cyfnod pan ddatblygwyd y ddogfen. Cafwyd trafodaethau gydag arweinwyr gwleidyddol a gyda'r sector preifat a bydd yn rhaid i'r Fargen fod yn hyblyg o ran amgylchiadau economaidd sy'n newid. Nododd CJE bod y tîm yn gweithio gyda LIC ynghylch yr ymateb economaidd hefyd, a bod y Fargen Twf yn ymwneud â chymorth dros y tymor canolig-hirach, ac nad oes unrhyw arwydd bod angen i hyn newid. Esboniodd CJE na chytunwyd ar brosiectau eto ac mai diben y cam hwn yw gosod y sylfeini er mwyn caniatáu i'r rhanbarth a rhanddeiliaid gael y cyfle i fynegi eu barn yn gryf am yr hyn y bydd y Fargen Twf yn ei gynorthwyo er mwyn ymateb i'r hyn y mae gofyn i'r economi ei gael. | |
| **4.** | **Cyflwyniadau Rhanbarthol** | |
| | **Cyflwyniad – Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd – Llywodraeth Cymru**<br><br>Roedd Arthur Emyr, Llywodraeth Cymru, yn bresennol yn y cyfarfod i roi cyflwyniad am y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd. Mae copi o'r cyflwyniad ynghlwm. Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar:-<br><br>Mid Wales Growth Deal Partnership Sept<br><br>• Gyflawniadau a Cherrig Milltir<br>• Tarddiad ac Esblygiad – y daith<br>• Amcanion, gyrwyr/ tueddiadau a buddion<br>• Y cynnig<br><br>Dilynwyd hyn gan gyfle i ofyn cwestiynau.<br><br>Gofynnodd MD a oes unrhyw syniad o'r amserlen ar gyfer y gwaith hwn, oherwydd y bydd angen gwella'r lefel sgiliau ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth er mwyn helpu a chynorthwyo.<br><br>Nododd ArthurE bod y rhaglen bresennol yn nodi (yn unol â chafeatau) y dylent fod yn gallu cyflawni cam 1 a bod yn weithredol o ran refeniw yn 2023, a chamau dau a thri yn 2024 a 2025. Nododd ArthurE y bu trafodaethau cadarnhaol ynghylch cyfleoedd a'r angen am amgylchedd dynamig ar gyfer sgiliau.<br><br>Nododd MD bod Academi y Rheilffyrdd dan eu contract dysgu seiliedig ar waith nhw, a bod cyfleoedd da i gael arbenigwyr yn y gwaith hwn ac i ddefnyddio rhaglenni peirianneg mwy estynedig er mwyn paratoi pobl ar gyfer y gwaith.<br><br>Gofynnodd AE a ystyriwyd cyfleoedd eraill ar gyfer y rheilffordd i deithwyr? Dywedodd ArthurE bod y rheilffordd yno a'i bod mewn cyflwr da, a bod hyn wedi bod yn rhan o drafodaethau tebyg a bod cwestiynau tebyg wedi cael eu codi dros y 18 mis diwethaf ynghylch beth arall allai gael ei weithredu yn y dyfodol o ran defnydd.<br><br>Dywedodd RH ei bod yn bwysig nodi y bydd cyfleoedd twristiaeth a datblygu economaidd ychwanegol ynghlwm â'r cyfleuster hwn oherwydd y bydd pobl yn teithio ac yn aros yn yr ardal er mwyn defnyddio'r cyfleuster. Nododd ArthurE y bydd angen ystyried llety pan fydd y safle yn weithredol, oherwydd y bydd peirianwyr, academyddion ac ymchwilwyr yn gweithio ar y safle o ddydd i ddydd, ac ni cheir nifer o ddewisiadau llety amgen yn yr ardal. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd ArthurE y bydd yn parhau i roi diweddariad i'r Bartneriaeth am y cynnydd.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i ArthurE am ei gyflwyniad i aelodau'r bartneriaeth heddiw. | |
| | **Cyflwyniad – Cysylltedd Digidol yng Nghanolbarth Cymru – Cynghorau Ceredigion a Phowys**<br>Cafodd y Bartneriaeth gyflwyniad gan Diane Reynolds, Gareth Jones (Cyngor Sir Powys) a David Owen (Cyngor Sir Ceredigion) ynghylch cysylltedd digidol yng Nghanolbarth Cymru. Mae copi o'r cyflwyniad ynghlwm. Roedd y cyflwyniad yn canolbwyntio ar:-<br><br>• Gysylltedd cyfredol<br>• Gweledigaeth ranbarthol ar gyfer cysylltedd digidol<br>• Gweithgarwch cyfredol<br>• Mapio cysylltedd<br>• Y gronfa Uwchraddio Band Eang<br>• Wi-Fi Tref<br>• LoRaWAN a sut mae'n gweithio<br>• Band Eang Cymunedol<br>• Cyfleoedd ar gyfer cydweithio rhanbarthol<br><br>Dilynwyd hyn gan gyfle i ofyn cwestiynau.<br><br>Gofynnodd RLIM a yw'r tîm wedi bod mewn cysylltiad gyda Chanolfan Ragoriaeth Prifysgol Aberystwyth fel rhan o'r gwaith hwn. Nododd DO bod trafodaethau wedi cael eu cynnal.<br><br>Gofynnodd NW a yw'r tîm wedi cael trafodaeth gyda'r Bwrdd Iechyd gan bod mwy o apwyntiadau cleifion allanol yn digwydd ar-lein. Nododd DO bod Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y cyd dan yr RPB ym Mhowys, a bod Digidol yn Gyntaf yn elfen yn honno, a bod y tîm wedi cydweithio'n agos gyda'r arweinydd digidol i sicrhau bod cynlluniau yn cyd-fynd.<br>Gofynnodd EW sut mae'r tîm yn mynd i dargedu aelodau'r gymuned nad ydynt yn gallu manteisio ar adnoddau er mwyn cael rhagor o wybodaeth a gwneud cais am y Gronfa Uwchraddio Band Eang? Dywedodd DO y byddant yn gweithio gyda chynlluniau lleol ac y bydd ganddynt swyddogion ar lawr gwlad.<br><br>Nododd EAG y cafwyd anawsterau yn y gorffennol gan nas cydnabuwyd bod cyfnewidfa Glandyfi yng Ngheredigion, er ei bod yng Ngheredigion. Dywedodd EAG bod problem gyda'r diffiniad o ffin sirol. Cadarnhaodd GJ bod hon yn broblem y mae'r tîm yn ymwybodol ohoni a'u bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i ddelio â'r broblem. | |
| **5.** | **Tirlun Rhanbarthol Ehangach**<br><br>**Cynllunio Economaidd Rhanbarthol – Llywodraeth Cymru**<br>• **Adferiad Economaidd Rhanbarthol Mewn Ymateb i Covid 19**<br><br>Cafodd yr Aelodau ddiweddariad gan AW am ymateb LIC i gymorth busnes yng ngoleuni'r pandemig, y gwaith adfer sy'n parhau a'r gwaith i ddatblygu'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.<br><br>Nododd AW bod LIC wedi sicrhau bod dros £1.7 biliwn ar gael i gynorthwyo busnesau yng Nghymru er mwyn cyd-fynd â chynlluniau eraill Llywodraeth y DU. Nododd AW bod gwaith wedi dangos bod y pecyn cymorth wedi cyrraedd | |

busnesau yr oedd ei angen arnynt fwyaf. Mae 34% o'r busnesau yng Nghymru wedi cael budd o'r cymorth, o'i chymharu ag 14% yn Lloegr a 21% yn Yr Alban. Nododd AW bod grantiau ardrethi busnes sy'n werth dros £758 miliwn wedi cael eu darparu gan Awdurdodau Lleol i fusnesau cymwys yng Nghymru. Dywedodd AW bod 13,000 o fusnesau wedi cael budd gan y Gronfa Cadernid Economaidd hefyd, sydd wedi llwyddo i ddiogelu dros 100,000 o swyddi. Mae Xxx wedi cynnig cynorthwyo busnesau micro a busnesau mwy. Nododd AW bod gwaith yn parhau ar becyn cymorth arall. Dywedodd AW bod LIC wedi ymateb i'r adborth a gafwyd gan fusnesau a rhanddeiliaid i lenwi bylchau a fu o ran y cymorth. Nododd AW bod xxx o fusnesau wedi cael eu nodi fel maes sy'n wynebu anhawster a dywedodd AW y bydd pecyn a fydd yn werth £5 miliwn yn cael ei lansio o fis Ebrill 2019 i fis Mawrth 2020. Mae pecyn sy'n werth £40 miliwn ar gael i gyflogwyr hefyd, er mwyn eu galluogi i gyflogi a hyfforddi gweithwyr newydd, gan gynnwys prentistiaethau.

Hysbyswyd yr Aelodau gan AW bod y Cwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AS, yn arwain cryn dipyn o'r gwaith hwn ar gyfer LIC. Yn ogystal, mae Ken Skates AS yn ystyried adferiad economaidd yng ngoleuni'r pandemig ac mae'r Cabinet wedi cytuno eu bod yn ystyried rhaglen o weithgareddau sy'n seiliedig ar egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol, gwerth teg a chynaladwyedd amgylcheddol, sy'n rhan greiddiol o ymrwymiadau Pobl, Lle, Gwyrdd a Digidol y Cabinet.

Hysbyswyd y Bartneriaeth gan AW eu bod yn symud ymlaen i gyfnod ymgysylltu ynghylch y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol, ac y caiff hwn ei gyd-ddylunio gyda'r rhanbarth a rhanddeiliaid. Nododd AW yr anfonir y manylion at yr aelodau, a fydd yn cynnwys nifer o ddigwyddiadau rhyngweithiol trwy gydol yr hydref, a fydd yn helpu i nodi blaenoriaethau cyffredin a rennir, y gall y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ymrwymo iddynt.

Diolchodd SH i AW am y diweddariaf a nododd, er bod busnesau wedi bod yn ddiolchgar iawn i LIC am y cymorth busnes a ddarparwyd, bod angen ystyried cymorth ar gyfer y digwyddiadau eiconig a gynhelir yng Nghanolbarth Cymru bob blwyddyn, y maent yn mynd i'w chael hi'n anodd yn ystod unrhyw gyfnod agor fesul cam.

Dywedodd AW y bydd hi'n cyfleu sylwadau SH i gydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

- **Diweddariad am raglen waith RIIW a digwyddiadau OECD**

Rhoddodd RG-J ddiweddariad i'r Aelodau. Esboniodd RG-J mai hi yw'r Dirprwy Gyfarwyddwr dros Fuddsoddi Rhanbarthol yn LIC, a'i bod yn gweithio ar fuddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol yng Nghymru, ar ôl Brexit. Esboniodd RG-J bod CJE a CM yn aelodau o'r is-grŵp a bod nifer o Gynghorwyr yn aelodau o'r grŵp llywio allanol a gadeirir gan Huw Irranca-Davies AS.

Yn ychwanegol i'r grŵp llywio, nododd RG-J eu bod yn cydweithio'n agos gyda Grŵp Gweinidogol sy'n cynnwys y Cwnsler Cyffredinol, Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Cyllid. Esboniodd RG-J y cynhaliwyd cyfarfodydd yn ystod mis Awst a mis Medi ac y cyflwynir cynigion manwl ynghylch buddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol i aelodau'r Cabinet. Dywedodd RG-J y cyhoeddir gwaith dadansoddi yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid rhwng mis Chwefror a mis Mehefin, yn ystod yr wythnosau nesaf. Dywedodd RG-J y bu'n ymateb gwych i'r ymgynghoriad ac y bydd angen i'r cynigion ystyried yr adferiad economaidd o ganlyniad i'r pandemig.

| | | |
|---|---|---|
| | Esboniodd RG-J y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn cyfarfod gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol brynhawn yfory i drafod safbwynt Llywodraeth y DU a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r hyn y bydd hynny yn ei olygu o ran y berthynas rhwng LIC, Llywodraeth y DU a rhanddeiliaid.<br><br>Dywedodd RG-J mai'r nod yw cydweithio'n agos fel pedwar rhanbarth Cymru er mwyn sicrhau'r buddsoddiad gorau ag y gallwn ei sicrhau yng Nghymru.<br><br>Nododd RG-J y lansiwyd Adroddiad OECD wythnos diwethaf. Soniodd RG-J bod CJE wedi siarad mewn digwyddiad OECD a gynhaliwyd wythnos diwethaf, a aeth yn dda. Esboniodd RG-J bod OECD wedi cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ar yr Adroddiad. Noddodd RG-J y byddant yn cael trafodaethau manylach gyda phob rhanbarth ac y cynhelir y digwyddiad ar gyfer Canolbarth Cymru ddydd Mawrth, 29 Medi (rhannwyd y manylion gan CM) er mwyn trafod yr anghenion a'r blaenoriaethau rhanbarthol, a'r hyn y bydd ei angen gan OECD a LIC er mwyn cyflawni'r rheiny.<br><br>Nododd RG-J mai'r gobaith yw y bydd mwy o eglurder am gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn y cyfarfod yfory, a fydd yn helpu gyda'r gwaith cynllunio ar gyfer buddsoddi rhanbarthol.<br><br>Rhannodd y ddau Arweinydd eu rhwystredigaeth ynghylch y ffaith na chafwyd cadarnhad ysgrifenedig am gyllid y Fargen Twf eto. Nododd RG-J mai'r gobaith yw y bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y cyfarfod Gweinidogol yfory, ac y caiff y pwynt ei wneud bod gofyn cael y wybodaeth hon er mwyn parhau i gydweithio. Nododd EAG ei bod yn debygol y bydd yn rhaid i ni atos tan yr Adolygiad o Wariant ym mis Tachwedd am unrhyw wybodaeth. | |
| **6.** | **Ymateb Rhanbarthol – Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir Llywodraeth Cymru**<br><br>Nododd CM ein bod wedi cyrraedd cam nesaf Ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir LIC, a fydd yn dod i ben ar 23 Hydref ac sy'n sôn am reoli a gweinyddu cronfeydd yn y dyfodol yng Nghymru ar ôl Brexit, ac y mae wedi cael ei rannu'n ddwy rhan, Colofn 1 a Cholofn 2.<br><br>Yn yr ymgynghoriad, esboniodd CJE y cynigir bod y rôl a'r pwerau o ran neilltuo cronfeydd ynghylch unrhyw raglen RDP yn y dyfodol, yn cael eu cryfhau'n fawr.<br><br>O ran rheoli cronfeydd, esboniodd CM bod mecanwaith Pwyllgor Monitro Rhaglen mewn grym, sy'n cynnig y cyfle i randdeiliaid allweddol a phartneriaid i graffu penderfyniadau a diwygiadau i'r rhaglen.<br><br>Nododd CM bod Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cyhoeddi pecyn gwario diwygiedig ar gyfer gweddill y cyllid RDP cyfredol yng Nghymru ar 8 Medi, a bod hyn wedi cael ei groesawu. Cyhoeddwyd pecyn o £160 miliwn ar gyfer yr economi wledig, fodd bynnag, dim ond £2 filiwn fydd yn cael ei neilltuo i'r cynllun buddsoddi mewn busnesau byd-eang, a bydd y gweddill ar gyfer amaethyddiaeth a'r amgylchedd.<br><br>Dywedodd CM y bydd RET yn drafftio ymateb i'r ymgynghoriad gan yr Aelodau, ac y bydd yn dosbarthu ymateb drafft i'r Aelodau, er mwyn iddynt allu gwneud sylwadau amdano, erbyn yr wythnos yn cychwyn ar 5 Hydref 2020.<br><br>Nododd EAG ei bod yn dymuno gwneud y pwynt nad ydynt wedi cynnwys un o brif themâu adfer elfen gwaith teg cyfiawnder cymdeithasol yn hwn ar hyn o bryd. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 7. | **Diweddariadau Rhanbarthol:**<br><br>**i. Y Rhaglen Buddsoddi mewn Adfywio wedi'i Dargedu**<br><br>Cafwyd diweddariad gan CJE o'r Adroddiad a ddosbarthwyd ymlaen llaw, er mwyn rhoi diweddariad i'r Aelodau am y cynnydd mewn perthynas â'r rhaglen TRI yng Nghanolbarth Cymru, ac ynghylch cynigion i ariannu Adfywio yn y dyfodol, a cheisio cymeradwyaeth am yr egwyddorion er mwyn addasu'r rhaglen fel y gall swyddogion reoli'r rhaglen gyfredol i leihau unrhyw danwariant posibl yn y dyfodol, a threfniadau arfaethedig ar gyfer gweinyddu'r rhaglen yn ystod blynyddoedd cyllido yn y dyfodol.<br><br>Yn dilyn trafodaeth, cytunodd y bartneriaeth<br><br>• Gymeradwyo'r cais arfaethedig i Lywodraeth Cymru gario gwerth dros £12,000 mewn ffioedd rheoli ymlaen i flwydydn 4 (2021/2022) er mwyn galluogi gwaith i fonitro cwblhau, allbynnau a chymeradwyo gweithgarwch prosiect ar gyfer Canolfan Dulais.<br>• Cymeradwyo'r cais arfaethedig i Lywodraeth Cymru gario gwerth dros £18,000 mewn ffioedd rheoli ymlaen i flwyddyn 4 (2021/2022) er mwyn galluogi gwaith i fonitro cwblhau, allbynnau a chymeradwyo gweithgarwch prosiect ar gyfer Lleoliad Glan yr Afon Y Drenewydd.<br>• Cymeradwyo'r egwyddor o gynyddu cyllideb Cronfa Fuddsoddi Eiddo Canol Tref (TCPIF) yn 2020/21 er mwyn lleihau tanwariant y rhaglen gymaint ag y bo modd, os bydd hyn yn digwydd.<br>• Cymeradwyo'r cynnig i Gyngor Sir Powys arwain rownd nesaf y gronfa buddsoddi mewn eiddo thematig arfaethedig ar gyfer y rhanbarth, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn yr adroddiad.<br>• Cymeradwyo'r swm dangosol o £1.5m a gynigiwyd ar gyfer rownd nesaf y gronfa thematig.<br><br>Dywedodd EAG nad yw'r ffordd y mae LlC yn diffinio anghenion canol trefi yn caniatáu datblygiad yn ardal ehangach y trefi, a nododd bod angen ystyried y trefi marchnad llai mewn ffordd ychydig yn wahanol. Ymatebodd CW, LlC trwy nodi bod LlC yn ystyried caniatáu i Awdurdodau Lleol gael mwy o hyblygrwydd. Nododd CW mai'r gobaith yw y bydd y thematig newydd yn cynnig nifer yn fwy o gyfleoedd.<br><br>**ii. Adroddiad Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol**<br><br>Cafwyd diweddariad gan CM o adroddiad i'r Aelodau a ddosbarthwyd ymlaen llaw. Hysbyswyd yr aelodau gan CM o'r ffaith bod y tîm yn y camau cyntaf o gael gwefan ranbarthol ar gyfer TCC erbyn diwedd y mis. Nododd CM y cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Rhwydwaith Menter Rhanbarthol ychydig wythnosau yn ôl i rannu gwybodaeth ac adborth cadarnhaol.<br><br>**iii. Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith**<br><br>Rhoddodd AE ddiweddariad i'r Aelodau. Esboniodd AE bod y pandemig wedi effeithio ar gynaladwyedd y rhwydwaith trafnidiaeth. Nododd AE bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi eu bod yn terfynu'r fasnachfraint rheilffyrdd ar ôl 24 o flynyddoedd ac y byddant yn ei disodli gyda threfniadau rheoli adferiad mewn argyfwng. Dywedodd y Cadeirydd y gellir rhoi diweddariad am waith cynllunio rhwydwaith y rheilffyrdd yn y dyfodol yn ystod cyfarfod nesaf Partneriaeth TCC a gynhelir ar 3 Rhagfyr 2020. | | |

| | | |
|---|---|---|
| 8. | **Unrhyw Fater arall**<br>Dywedodd GJ y rhennir Strategaeth Ynni Canolbarth Cymru gydag Aelodau dros yr wythnosau nesaf. Nododd GJ y trefnir gweithdy wedyn i'r Aelodau drafod y Strategaeth.<br><br>Hysbyswyd yr Aelodau gan HJ Croeso Cymru o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol, a fydd ar gael i sefydliadau yn y sectorau diwylliant a threftadaeth. Y dyddiad cau er mwyn cyflwyno ceisiadau yw 2 Hydref 2020. Dosbarthir manylion pellach mewn neges e-bost. | |
| 9. | **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**<br>Cynhelir y cyfarod nesaf ar 4 Rhagfyr – Zoom (manylion i'w cadarnhau) | |

**CYNGHORYDD ROSEMARIE HARRIS - ARWEINYDD**
**CYNGOR SIR POWYS**
**YN Y GADAIR**